# PROSPECTWS
# YSGOL LLANGYNNWR
# 2024-25







YMDRECH A LLWYDDIANT


**Ysgol Llangynnwr**

FFôn: 01267 234296
e-bost: admin@llangunnor.ysgolccc.cymru
Gwefan: www.llangynnwr.ysgolccc.cymru

# CROESO I LAWLYFR YSGOL LLANGYNNNWR

| | |
|---|---|
| **ENW** | Ysgol Llangynnwr |
| **CYFEIRIAD** | Ysgol Llangynnwr<br>Lon Penymorfa<br>Llangynnwr<br>Caerfyrddin<br>SA31 2NN |
| **FFÔN** | 01267 237841 |
| **E-BOST** | admin@llangunnor.ysgolccc.cymru |
| **GWEFAN YR YSGOL** | www.llangunnor.ysgolccc.cymru |
| **PENNAETH** | Mr Aled Davies |
| **CADEIRYDD Y CORFF LLYWODRAETHOL** | Mrs Lowri Williams |

Dymunwn estyn croeso i chi a'ch plentyn i Ysgol Llangynnwr. Mae awyrgylch, ethos ac ansawdd dysgu'n holl bwysig i ni. Ceisiwn bopeth sydd orau mewn addysg gynradd. Amcanwn i'r plant fod yn hapus, caredig, yn driw i'w gilydd a chael llu o brofiadau cyfoethog fel eu bod yn datblygu yn feddyliol a chymdeithasol. Ystyriwn barch at eraill ac ymddygiad priodol yn rhinweddau holl bwysig.

**Trwy ymdrech daw llwyddiant .**

Yma ar lannau'r Afon Tywi, saif ein hysgol ni, Ysgol Gynradd Llangynnwr.
O fewn awyrgylch diogel, goddefol, hapus, teuluol, ddwyieithog; darparwn amgylchfyd heriol a mentrus lle anogir pob dysgwr i ddatblygu fel unigolyn moesol, parchus, cydwybodol, iach, hyderus a chreadigol sy'n dyfalbarhau i gymhwyso eu sgiliau amrywiol. Datblygwn ddinasyddion uchelgeisiol, galluog a gwybodus â gwreiddiau lleol cadarn, sy'n falch o'u hunaniaeth, yn deall eu rôl yn y byd ac sy'n barod i gyfrannu'n llwyddiannus i gymdeithas a byd cynaliadwy a thechnolegol sy'n gyson newid.

**Ein gwerthoedd:**
- Parch ac Ymddiriedaeth
- Lles a Gofal
- Hapusrwydd a Mwynhad
- Gwydnwch a Hyder
- Cymru a Chymreictod
- Cymuned a Chynefin
- Cymryd risg ac Arloesi
- Cefnogaeth a Chydweithio

**Hyderwn y bydd y llawlyfr yma'n cynnwys yr holl wybodaeth y bydd ei angen arnoch i ddod i adnabod yr ysgol. Os bydd angen unrhyw ganllaw pellach, cysylltwch â ni.**



## LLEOLIAD YR YSGOL

**Ysgol Gynradd Gymunedol ar gyfer disgyblion dyddiol rhwng 3 ac 11 oed.**
**Agorwyd adeiladau presennol yr ysgol yn 1961 gydag ymestyniadau yn 1980 a 2002.**
**Mae'r ysgol wedi'i lleoli mewn ardal lled-wledig i'r de o dref Caerfyrddin, yn agos at Afon Tywi.**
**Mae gan yr ysgol gaeau chwarae mawr, ynghyd â neuadd/ campfa eang ei hadnoddau sydd ar gael i'r 300+ o ddisgyblion.**

## CORFF LLYWODRAETHOL

Penodir corff llywodraethol gan yr AALl. Mae'r corff llywodraethol yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion ynglŷn â gwaith yr ysgol, yr adeilad a'i safle, cyllid yr ysgol a staffio. Danfonir adroddiad blynyddol i rieni'r ysgol.

| | |
|---|---|
| Cadeirydd | Mrs Lowri Williams |
| Cynrychiolwyr AALl | Cty Cllr Elwyn Williams<br>Mrs Janet Rowberry<br>Mr Gareth Rees |
| Pennaeth | Mr Aled Davies |
| Athro-Lywodraethwyr | Mrs Catrin Thomas |
| Staff—llywodraethwr | Mrs Allison Bowen |
| Rhieni Fel Llywodraethwyr | Mrs Nicola Elias<br>Mrs Lowri Davies<br>Mr Gareth Jones |
| Cynghorwyr Cymunedol | Mr Iwan Davies<br>Mr Gareth Gravell<br>Miss Sarah Howells<br>Mrs Joan Evans |



# STAFF YR YSGOL

| | |
|---|---|
| Pennaeth | Mr Aled Davies |
| Pennaeth Cynorthwyol | Mrs Catrin Thomas |
| | Mrs Caron Thomas |
| Dosbarth Dewi | Miss Jodie Guest |
| Dosbarth Non | Mrs Caron Thomas/Mrs Katie Lewis |
| Dosbarth Rhiannon | Mr Steffan Thomas |
| Dosbarth Sandde | Miss Nicola Davies |
| | Mrs Menna Mason |
| Dosbarth Pwyll | Mrs Michelle Llewelyn |
| Dosbarth Glyndwr | Miss Lowri Davies |
| Dosbarth Myrddin | Mrs Nicola Elias |
| Dosbarth Buddug | Mrs Gwenann Thomas |
| Dosbarth Gwenllian | Mrs Eirith Morris |
| Dosbarth Arthur | Mr Rhodri Evans |
| Dosbarth Llywelyn | Mrs Catrin Thomas/Mrs Teleri Bowen |
| Cynorthwywyr Dosbarth | Miss Sarah Thomas |
| | Mrs Maria Williams |
| | Mrs Tina Eldridge |
| | Mrs Allison Bowen |
| | Mrs Margaret Thomas |
| | Mrs Amanda Spagoni |
| | Mrs Claire Fraser-Jones |
| | Mrs Helen Roberts |
| | Mrs Alison Jones |
| | Mrs Sandra Rowlands |
| | Mrs Shan Lewis |
| Swyddog Cynnal a Gweinyddol Ysgol | Mrs Angela Thomas |
| Cogyddes | Mrs Llinos Evans |
| Cogyddion Cynorthwyol | Mrs Katy Evans |
| | Mrs Katy Malinowska |
| | Mrs Rebecca Mclavy |
| Gofalwyr Amser Cinio | Mrs Ann West |
| | Mrs Christine Higgins |
| | Mrs Donna Hancock |
| Gofalwr yr Ysgol | Mr Roger Rees |

# YSGOL LLANGYNNWR

| | |
|---|---|
| **Math o Ysgol** | **Ysgol Cyfrwng Cymraeg 4-7. Dwy Ffrwd 7—11** |
| **Capasiti** | **325** |
| **Rhif Derbyn** | **41** |
| **Nifer ar y Gofrestr** | **314 (Medi 2024)** |

# GWELEDIGAETH

# YMDRECH A LLWYDDIANT



**Trwy ymdrech daw llwyddiant**


Yma ar lannau’r Afon Tywi, saif ein hysgol ni, Ysgol Gynradd Llangynnwr. O fewn awyrgylch diogel, goddefol, hapus, teuluol, ddwyieithog; darparwn amgylchfyd heriol amentrus lle anogir pob dysgwr iddatblygu fel unigolyn moesol,parchus, cydwybodol, iach, hyderus achreadigol sy’n dyfalbarhau igymhwyso eu sgiliau amrywiol.Datblygwn ddinasyddion uchelgeisiol,galluog a gwybodus â gwreiddiau lleolcadarn, sy’n falch o’u hunaniaeth, yndeall eu rôl yn y byd ac sy’n barod igyfrannu’n llwyddiannus i gymdeithasa byd cynaliadwy a thechnolegol sy’ngyson newid.

# EIN GWERTHOEDD

Ein nod fel ysgol yw addysgu plant i'w llawn botensial mewn awyrgylch hapus, diogel a chartrefol.

**Ein Gwerthoedd**

- Parch ac Ymddiriedaeth
- Gwydnwch a Hyder
- Lles a Gofal
- Cymru a Chymreictod



- Hapusrwydd a Mwynhad
- Cymuned a Chynefin
- Cymryd Risg ac Arloesi
- Cefnogaeth a Chydweithio

Ceisiwn rannu a datblygu’r gwerthoedd yma trwy ddarparu addysg eang, cytbwys, perthnasol a gwahaniaethol.

# AMSERLEN Y DYDD

| | Meithrin a Derbyn | Blynyddoedd 1 a 2 | Blynyddoedd 3 i 6 |
|---|---|---|---|
| **Cofrestr** | 8:50- 9:00 | 8:50-9:00 | 8:50-9:00 |
| **Egwyl Bore** | 10:00- 10:15 | 10:10-10:25 | 10:30-10:45 |
| **Cinio** | 11:30 - 12:30 | 12:00-13:00 | 12:20-13:15 |
| **Diwedd y Dydd** | 15:00 | 15:05 | 15:15 |



Gwerthfawrogir prydlondeb er hwylustod i bawb. Dengys prydlondeb foesau da a chyfrifoldeb.

# CYRRAEDD A GADAEL YR YSGOL

Clwb Brecwast 8:00 - 8:50 Mynediad olaf i'r clwb brecwast 8:30.
Gofynnwn i chi gadw at yr amseroedd dynodedig.

Yn y bore arhoswch nes bod aelod o staff yn cwrdd â chi wrth y iard dynodedig
Yn y prynhawn wrth gasglu, bydd yr athrawon yn cerdded gyda'r plant at y man casglu ar ddiwedd dydd.

**Rhaid rhoi rhybudd i'r ysgol os bydd rhywun arall yn casglu'ch plant ar unrhyw adeg.**

Er mwyn diogelwch, os gwelwch yn dda peidwch a pharcio eich ceir ar y mân linellau melyn sydd o flaen y brif fynedfa. Gofynnwn i chi beidio â pharcio ym maes pacrio'r staff yn ogystal. DYLAI'R MAN YMA FOD YN GLIR BOB AMSER.

# PRESENOLDEB

Pan fydd disgybl yn absennol o'r ysgol, bydd eisiau llythyr neu ganiad ffôn beth bynnag fydd rheswm yr absenoldeb. Rhaid gwneud hynny cyn 9:10 bob bore.

Rhaid cwblhau ffurflen briodol er mwyn derbyn caniatâd y pennaeth ar gyfer absenoldeb er ni anogir absenoldeb ar gyfer gwyliau yn ystod y flwyddyn.

| 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|
| 91.96% | 93% | 93.52% |



# TYWYDD GARW

Gwneir pob ymdrech i gadw'r ysgol ar agor adeg tywydd garw ond dylid gweld App/Facebook yr ysgol am wybodaeth ar hyn os ydych mewn unrhyw amheuaeth. Mae'n syniad da i wrando ar y radio lleol am gyhoeddiadau pan fydd y tywydd yn anffafriol neu edrych ar wefan y Cyngor Sir dan ddilyn dolen gyswllt 'Ysgolion ar gau'.

# DERBYN DISGYBLION

Mae gan blant hawl i dderbyn hyd at 12.5 awr o addysg yng Nghymru gan ddechrau'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 3 oed. Derbynnir plentyn ar ddechrau'r tymor wedi iddynt ddathlu ei b/phedwaredd pen-blwydd. Mae'n ofynnol i rieni darpar ddisgyblion yrru ffurflen gais at yr sir. Gellir llenwi'r ffurflen gais ar wefan y sir.

Byddwn yn eich gwahodd chi a'ch plentyn i Ysgol Llangynnwr yn yr hanner tymor cyn i'ch plentyn ddechrau. Fe fydd hyn yn gyfle i'ch plentyn gael ymgyfarwyddo gyda'i dosbarth newydd sef 'Dosbarth Dewi' a'r staff a fydd yn gofalu amdanynt. Byddwch chi yn derbyn croeso a chyflwyniad yn neuadd yr ysgol gan Pennaeth yr ysgol, Mr Davies ac hefyd gan Mrs Caron Thomas, Pennaeth y Cyfnod Dysgu Sylfaen lle byddant yn rhannu gwybodaeth gyda chi.

- Paratoir pecyn gwybodaeth am y Dysgu Sylfaen a'r ysgol i bob rhiant newydd, a threfnir cyfarfod er mwyn cyflwyno'r rhain.
- Mae croeso i unrhyw riant gysylltu â'r ysgol ar unrhyw adeg resymol i drafod trefniadau derbyn plentyn i'r ysgol.
- Bydd y Cyngor Sir drwy'r Rheolwr Derbyniadau; yn cyfarwyddo'r Corff Llywodraethol, a thrwyddynt y Pennaeth, i'w gwneud hi'n eglur i rieni pan fydd plentyn o du allan y dalgylch yn cael mynediad i'r ysgol y gall hynny gael effaith ar y trosglwyddiad i addysg uwchradd. Nid yw'n dilyn fod mynediad i ysgol gynradd yn rhoi hawl mynediad i ysgol uwchradd y dalgylch; cyfeiriad cartref y plentyn sy'n dynodi'r ysgol uwchradd y bydd yn cael mynediad iddi. Mae adborth wrth rieni yn y Broses Apeliadau yn nodi nad yw hyn bob amser yn eglur o'r dechrau.



# CYTUNDEB CARTREF / YSGOL

Disgwylir i rieni a'r ysgol gytuno a llofnodi cytundeb cartref / ysgol er mwyn cyd-weithio er budd y disgyblion ar fynediad.

# PARATOI AR GYFER YSGOL

Beth allwch chi ei wneud i helpu?

- Darllenwch gyda'ch plentyn yn ddyddiol.
- Datblygwch weithgareddau sy'n hybu sgwrs a hunan hyder.
- Helpwch eich pletyn i gyflawni tasgau megis gwisgo, newid, mynd i'r toiled.
- Defnyddio cyllell a fforc.
- Gwnewch ddefnydd o'r grŵp meithrin lleol er mwyn paratoi eich plentyn yn gymdeithasol ac yn ieithyddol ar gyfer addysg Gymraeg.

# TREFNIANT DOSBARTHIADAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dewi<br>Meithrin | Non<br>Derbyn | Rhiannon<br>Bl 1 a 2 | Sandde<br>Bl 1 a 2 | Pwyll<br>Bl 1 a 2 | Glyndwr<br>Bl 3 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Buddug<br>Bl 4 | Myrddin<br>Bl 3 a 4 Saesneg | Arthur<br>Bl 5 a 6 Saesneg | Gwenllian<br>Bl 5 | Llywelyn<br>Bl 6 |

# CAMAU CYNNYDD

| | | |
|---|---|---|
| **CAM CYNNYDD 1**<br>**Dan 5 oed**<br>**(Meithrin a Derbyn)** | **CAM CYNNYDD 2**<br>**Dan 8 oed**<br>**(Blwyddyn 1-3)** | **CAM CYNNYDD 3**<br>**Dan 11 oed**<br>**(Blwyddyn 4-6)** |

# DYSGU SYLFAEN

**Bydd Dysgu Sylfaen yn datblygu'r canlynol:**

- Lles
- Archwilio
- Cyfathrebu
- Datblygiad Corfforol
- Perthyn

Ein nod fel ysgol yw sicrhau bod eich plentyn yn ystod y cyfnod pwysig yma'n:

- teimlo'n ddiogel yn yr awyrgylch newydd,
- yn ymfalchïo yn ei allu, ac yn deall ei fod yn cael ei barchu a'i werthfawrogi fel unigolyn,
- gyfforddus i ddewis drosto'i hun gwahanol offer a thasgau,
- mwynhau dysgu a darganfod a chymryd rhan mewn gwahanol fathau o weithgarwch,
- derbyn anogaeth, cefnogaeth a chanmoliaeth gyson am ei ymdrech,
- datblygu fel aelod cyflawn o'r ysgol a'r gymuned.

# CWRICWLWM

Bydd ein cwricwlwm yn codi dyheadau pob dysgwr. Fel ysgol rydym wedi ystyried sut y bydd pob dysgwr yn cael ei gefnogi i wireddu'r pedwar diben ac i symud ymlaen. Rydym wedi ystyried ein darpariaeth ADY a sut y byddwn yn bodloni anghenion gwahanol grwpiau o ddysgwyr.

**Y pedwar diben**

Y pedwar diben yw'r man cychwyn a'r dyhead ar gyfer ein cynllun cwricwlwm ysgol. Nod ein hysgol yw cefnogi ein dysgwyr i ddod :




Yn gyfranwyr mentrus, creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith




Yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus Cymru a'r byd




Yn unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas



Yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes

**Meysydd Dysgu a Phrofiad**

Bydd ein cwricwlwm yn darparu profiadau dysgu drwy'r 6 Maes Dysgu a Phrofiad




Cyflwynir addysg y plant drwy themâu/Cysyniadau. Trefnir y rhain yn ofalus er mwyn sicrhau sylw teilwng i'r holl datganiadau o'r hyn sy'n bwysig o fewn pob maes. Caiff gwaith y plant ei gadw mewn ffeiliau, llyfrau ac yn electroneg. Bydd y gwaith yn cael ei arddangos hefyd yn y dosbarthiadau ac ar wahanol arddangosfeydd o amgylch yr ysgol.

## FFRAMWAITH LLYTHRENNEDD, RHIFEDD A CHYMHWYSEDD DIGIDOL

Bydd ein cwricwlwm yn datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Bydd ein cwricwlwm yn galluogi dysgwyr i ddatblygu cymhwysedd a gallu yn y sgiliau hyn a'u hymestyn a'u cymhwyso ar draws pob Maes. Bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i:

- datblygu sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu
- gallu defnyddio rhifau a datrys problemau mewn sefyllfaoedd go iawn
- bod yn ddefnyddwyr hyderus o ystod o dechnolegau i'w helpu i weithredu a chyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd

## LLYTHRENNEDD

| LLAFAREDD | DARLLEN | YSGRIFENNU |
|---|---|---|
| Siarad<br>Gwrando<br>Cydweithio a thrafod | Strategaethau Darllen<br>Darllen a Deall<br>Ymateb a Dadansoddi | Ystyr, dibenion, darllenwyr<br>Stwythur a threfn<br>Iaith<br>Cystrawen<br>Atalnodi<br>Sillafu<br>Llawysgrifen |

## DARLLEN

Defnyddiwn amrywiaeth o gynlluniau darllen Cymraeg a Saesneg sy'n addas i bob plentyn. Cedwir cofnod darllen ysgrifenedig ar bob plentyn. Estynnir y darllen er mwyn defnyddio'r sgiliau i ledaenu gwybodaeth a chael pleser.

Anogwn chi rieni i ddangos diddordeb yn y darllen ac annog eich plant i wneud hynny. Gofynnwn i chi gyfrannu at ddatblygiad darllen eich plentyn drwy eistedd gydag hwy, gwrando arnynt yn darllen a thrafod y llyfr gydag hwy.

Mae llenyddiaeth yn arf arbennig i danio'r dychymyg.



# RHIFEDD

Mae syniadau a thechnegau mathemategol yn rhan hanfodol o fywyd pob dydd ac yn cyfrannu'n sylweddol at ein dealltwriaeth o'r byd o'n cwmpas. Gweithiwn yn ddiwyd er mwyn datblygu agwedd bositif tuag at fathemateg fel pwnc diddorol i'w fwynhau.

Ein nod yw gwneud plant yn hollol hyderus wrth ddefnyddio rhif. Teimlwn fod gwaith ymarferol yn bwysig ond telir sylw arbennig i sgiliau sylfaenol. Mae dysgu tablau'n bwysig iawn ac fe'u dysgir ar wahanol lefelau. Dylai'r plant eu dysgu ar gôf a gofynnir am gymorth gartre yma. Cymhwysir dealltwriaeth fathemategol disgyblion mewn gwersi eraill ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

**Datblygu Ymresymu Rhifyddol**

**Defnyddio Sgiliau Rhif**

**Defnyddio Sgiliau Mesur**

**Defnyddio Sgiliau Data**

# CYMHWYSEDD DIGIDOL

Mae'r Datblygiadau diweddaraf ym myd addysg wedi rhoi statws uchel i Gymhwysedd Digidol a Thechnoleg. Yn Llangynnwr rhoddir y pwyslais ar ddatblygu Cymhwysedd Digidol drwy'r holl Feysydd Dysgu a Phrofiad.

Mae'n hanfodol bod y plant yn gyfarwydd â thrin cyfrifiadur ac amrywiaeth o gyfarpar technolegol. Mae Cymhwysedd Digidol yn canolbwyntio ar sgiliau digidol y gellir eu defnyddio mewn amrywiaeth eang o bynciau a sefyllfaoedd.

Rhennir Cymhwysedd Digidol i 4 llinyn, sy'n cael eu rhannu'n nifer o elfennau.

| Dinasyddiaeth | Rhyngweithio a chydweithio | Cynhyrchu | Data a meddwl cyfrifiadurol |
|---|---|---|---|
| Hunaniaeth, Delwedd ac enw da<br>Iechyd a lles<br>Hawliau, Trwyddedu a pherchnodaeth<br>Ymddygiad ar lein a seibrfwlio | Cyfathrebu<br>Cydweithio<br>Storio a rhannu | Cynllunio, cyrchu a chwilio<br>Creu<br>Gwerthuso a Gwella | Datrys problemau a modelu<br>Llythrennedd gwybodaeth a data |

# IECHYD A LLES

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd sy'n symbyliad i ddisgyblion lle gallant weithio tuag at aeddfedrwydd cyffredinol wrth ddatblygu sgiliau corfforol a chadw'n iach. Darperir gweithgareddau sy'n rhoi mwynhad i'r disgyblion. Ceisir hybu hyder trwy weithgaredd corfforol a chreu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iechyd wrth ymarfer.

Cymerir rhan mewn symud a dawns, gymnasteg, addysg gorfforol dan do a thu allan, pêl droed, pêl rwyd, rygbi, criced, rownderi a mabolgampau. Bydd y plant hŷn yn cael gwersi nofio. Mae gan yr ysgol nifer o dimau sy'n rhoi cyfle i'r plentyn gystadlu yn unigol ac fel aelod o dîm. Cymerir rhan mewn nifer o gystadlaethau lleol a sicrheir bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal.

Ni chaniateir citiau tîmau peldroed / rygbi / tunics / demin ayyb.

| Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener |
|---|---|---|---|---|
| Non<br>Glyndwr (YC)<br>Buddug (YC) | Arthur (YC)<br>Gemau—Myrddin, Buddug a Glyndwr | Dewi<br>Myrddin (YC)<br>Gwenllian (YC) | Llywelyn (YC) | Gemau -Llywelyn, Arthur a Gwenllian |

# CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG

Mae crefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM) yn ofyniad statudol o'r Cwricwlwm i Gymru ac mae'n orfodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed.

Nid oes hawl gan riant i wneud cais i dynnu plentyn o wersi CGM yn y Cwricwlwm i Gymru.

Gan fod CGM yn bwnc a bennir yn lleol, mae'r maes llafur cytûn yn nodi'r hyn y dylid ei addysgu mewn CGM o fewn yr awdurdod lleol a bydd ein cwricwlwm yn adlewyrchu'r canllawiau hyn.

# ADDOLI AR Y CYD

Mae gwasanaeth boreol yr ysgol yn rhan bwysig o'r diwrnod a threfnir hyn gan wahanol athrawon yn eu tro. Bydd yr ysgol gyfan yn cwrdd un waith yr wythnos i gynnal gwasanaeth.

Bydd pob Cam Cynnydd yn cwrdd ar wahân ar un diwrnod yr wythnos am gwasanaeth. Anogir y plant i gyfrannu yn ystod y gwasanaethau hyn.

Mae hawl gan rieni i gadw eu plentyn allan o'r gwasanaeth boreol ac fe wneir trefniadau ar gyfer hynny os oes galw.

# HAWLIAU PLANT

Bydd ein hysgol yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o Ran 1 o CCUHP, ac o CCUHPA, ymhlith y rhai sy'n darparu addysgu a dysgu.

# ADDYSG CYDBERTHYNAS A RHYWIOLDEB

Mae ein cwricwlwm ysgol yn cofleidio'r arweiniad yn y Cod ACRh. Bydd gan ein darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb rôl gadarnhaol a grymusol yn addysg ein dysgwyr a bydd yn chwarae rhan hanfodol wrth eu cefnogi i wireddu'r pedwar diben fel rhan o ymagwedd ysgol gyfan. Sylfaen ACRh yw helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o berthnasoedd, i gyd yn seiliedig ar gyd-ymddiriedaeth a pharch. Mae'r perthnasoedd hyn yn hanfodol i ddatblygiad lles emosiynol, gwydnwch ac empathi.

# GWAITH CARTREF

Rydym yn gosod gwaith cartref ffurfiol ac yn rhoi ffocws cadarn ar y canlynol:

**DARLLEN** | **SILLAFU** | **TABLAU**

- Rydym yn gosod llyfrau darllen yn wythnosol, anogwn i chi ddarllen a thrafod straeon gyda'ch plant o leiaf 3 gwaith yr wythnos. Cofiwch mae darllen gyda'ch plentyn yn holl bwysig.
  Mae llenyddiaeth yn arf arbennig i danio'r dychymyg ac i ddysgu pethau newydd.
- Byddwn hefyd yn gosod geiriau sillafu i'w dysgu.
- Mae rhuglder rhifyddol yn enwedig gyda thablau yn hanfodol. Mae'n bwysig eich bod yn ymarfer tablau gyda'ch plant.
- Mae tasgau ymestynnol yn cael eu gosod i blant hynaf yr ysgol er mwyn atgyfnerthu gwaith y dosbarth.

# YMWELIADAU ADDYSGOL

Trefnir ymweliadau addysgol yn ôl themâu'r ysgol i sbarduno'r dysgwyr ac i atgyfnerthu'r gwaith dosbarth. Cynigir cyfleoedd i ddisgyblion blwyddyn 6 yr ysgol i ymweld â Gwersylloedd yr URDD.

**Llywelyn a Arthur**
**Gwersyll Llangrannog**

# ARDAL ALLANOL

Mae amgylcheddau y tu mewn a thu allan sy'n hwyl, yn gyffrous, yn ysgogi ac yn ddiogel yn hyrwyddo datblygiad plant a'u chwilfrydedd naturiol i archwilio a dysgu drwy brofiadau uniongyrchol bywyd go iawn. Gyda'r Cwricwlwm newydd rhoddir pwyslais gynyddol ar ddefnyddio'r amgylchedd y tu allan fel adnodd dysgu er mwyn annog hyn.

Cynhelir gweithgareddau tu allan yn yr Adran Cyfnod Dysgu Sylfaen yn ddyddiol. Cynhelir gweithgareddau tu allan ddydd Mawrth ar gyfer dosbarth Gwenllian. Cynhelir gweithgareddau tu allan ddydd Mercher ar gyfer dosbarth Myrddin. Cynhelir gweithgareddau tu allan ddydd Iau ar gyfer dosbarthiadau Arthur. Cynhelir gweithgareddau tu allan ar ddydd Gwener ar gyfer dosbarthiadau Glyndwr, Buddug a Llywelyn.



# DYSGU, DILYNIANT AC ASESU

Bydd ein cwricwlwm yn cefnogi dysgu trwy ddylunio cyfleoedd dysgu sy'n tynnu ar yr egwyddorion addysgegol.

Mae ein cwricwlwm, a ategir gan addysgu a dysgu effeithiol, yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd ystyrlon. Dros amser bydd ein dysgwyr yn datblygu a gwella eu sgiliau a'u gwybodaeth. Mae ein cwricwlwm yn canolbwyntio ar ddeall beth mae'n ei olygu i wneud cynnydd mewn Maes neu ddisgyblaeth benodol a sut y dylai dysgwyr ddyfnhau ac ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, eu sgiliau a'u galluoedd, a'u priodoleddau a'u tueddiadau, ac mae'n cael ei lywio gan y Cod Cynnydd. Mae hyn yn ei dro yn cefnogi ein hymagwedd at asesu, a'i ddiben yw llywio cynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol. Bydd asesu yn cael ei wreiddio fel rhan gynhenid o ddysgu ac addysgu. Bydd pob dysgwr yn cael ei asesu ar fynediad i'r ysgol.

Cyflwynir adroddiadau ysgrifenedig blynyddol i rieni am gynnydd eu plentyn. Asesir plant yn fewnol fel rhan o bolisi asesu'r Ysgol. Mae pob athro dosbarth yn asesu gwaith y plant yn feunyddiol mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae'r athrawon yn gyson asesu cynnydd dysgwyr ac os sylwir nad yw'r disgybl yn gwneud cynnydd boddhaol yna cysylltir â'r rhieni.

Cynhelir nosweithiau rhieni yn nhymor yr Hydref a'r Gwanwyn.

# ADOLYGU A MIREINIO

Bydd ein cwricwlwm ysgol yn cael ei adolygu'n barhaus er mwyn ymateb i allbynnau ymholi proffesiynol, anghenion cyfnewidiol dysgwyr a chyd-destunau ac anghenion cymdeithasol. Bydd yr adolygiadau'n ystyried barn rhanddeiliaid ac yn cael eu cymeradwyo gan y Corff Llywodraethol. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'n cwricwlwm ac yn adolygu'r crynodeb os gwneir newidiadau i'r cwricwlwm yn ystod y broses adolygu.

# CYNLLUN DATBLYGU YSGOL

Mae'n ofynniad statudol arnom i bennu TARGEDAU blynyddol y dylid ceisio ymgyrraedd tuag atynt:

Datblygu dulliau ysgol gyfan sy'n annog annibyniaeth ein dysgwyr gan sicrhau bo dilyniant lefel yr her yn

Parhau i ddatblygu rôl ein arweinwyr meysydd er mwyn cryfhau ein strategaethau cynllunio, monitro,

Datblygu, gweithredu, gwerthuso a mireinio ein cynlluniau Celfyddydau Mynegiannol er mwyn sicrhau

Cryfhau rôl a mewnbwn y Llywodraethwyr i brosesau monitro ac hunan-arfarnu y Cwricwlwm a phrosesau gweithredol yr ysgol.

# Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Ein nod fel ysgol yw darparu cyfleoedd i bob disgybl ddatblygu i'w lawn botensial beth bynnag fo'i allu a'i anghenion.

Sicrheir bod disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn cael chwarae teg i gyd o fewn yr ysgol ac ystyrir ei bod yn bwysig adnabod anawsterau addysgol yn gynnar. Er mwyn adnabod anghenion penodol pob disgybl mae gan yr ysgol ddull o asesu ac o ganlyniad trefnir cefnogaeth berthnasol ar eu cyfer.

Mae pob athro dosbarth a'r Cydlynydd ADY (Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol) yn cydweithio'n agos. Trafodir pob unigolyn yn y dosbarth, ystyrir pa ddysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol. Bydd y disgyblion hyn yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd. Os canfyddir bod gan ddisgybl ADY yna rhoddir Cynllun Datblygu Unigol iddo sy'n broses gynhwysol a wneir gyda'r rhieni ac unrhyw asiantaethau sy'n ymwneud â'r plentyn. Mae'r Cydlynydd ADY yn cysylltu ag athrawon dosbarth a rhieni ac yn cynorthwyo i gynllunio ymyrraeth briodol (Cynlluniau Datblygu Unigol).

Gellir darparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion o fewn yr ystafell ddosbarth sef y dull cynhwysol a ffafrir. Mae gan bob athro gyfrifoldeb i greu gwaith gwahaniaethol ac addasu cynlluniau gwaith pan fo angen. Ar adegau mae angen tynnu disgyblion allan i weithio fel unigolion neu o fewn lleoliadau grwpiau bach gyda chynorthwywyr addysgu anghenion dysgu ychwanegol.

Mae gan holl ddisgyblion Ysgol Llangynnwr Broffil Un Dudalen. Pwrpas Proffil Un Dudalen yw gwybod yn union pa ffordd sydd orau i gefnogi eich plentyn a pha ddarpariaeth sydd ei hangen. Bydd plant sydd â CDU yn cael adolygiad blynyddol er mwyn creu cynllun gweithredu llwyddiannus sy'n ein helpu i dderbyn cefnogaeth ber-thnasol gan arbenigwyr, asiantaethau allanol sy'n ymwneud ag anghenion y dysgwr.

CADY yr Ysgol yw Mrs Caron Thomas (Pennaeth Cynorthwyol)

# TREFNIADAU AR GYFER DERBYN DISGYBLION ANABL

Mae gan yr ysgol gynllun mynediad i'r anabl er mwyn sicrhau cyfle cyfartal ac mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cydymffurfio â Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

# CYFLE CYFARTAL

Mae gan yr ysgol bolisi clir er mwyn sicrhau cyfleoedd cyfartal i bob aelod o gymuned yr ysgol. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Ysgol (CCY) a'r cynllun gweithredu ar gael yn Swyddfa'r Ysgol.

Ein nod yw sicrhau cydraddoldeb addysg a chyfle i'r holl ddisgyblion, staff, rhieni a gofalwyr sy'n derbyn gwasanaethau gan yr ysgol, ni waeth beth yw eu hanabledd, hil, rhyw, oedran, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifyl. Rydym yn ceisio datblygu diwylliant o gynhwysiad ac amrywiaeth sy'n galluogi pawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol i deimlo'n falch o'i hunaniaeth, a chyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol. Credwn fod amrywiaeth yn gryfder y dylid ei barchu a'i ddathlu gan bawb sy'n addysgu, ac yn dysgu yma, ac yn ymweld â'r ysgol.



# POLISI IAITH

Mae Ysgol Llangynnwr yn darparu addysg trwy'r Gymraeg a'r Saesneg ar draws dwy ffrwd.

Ein darpariaeth yn yr ysgol yw Cwricwlwm Cymraeg yn unig flynyddoedd Meithrin, Derbyn 1 a 2 gyda darpariaeth dwy Ffrwd o Flwyddyn 3 ymlaen.

Yn ein dosbarthiadau Ffrwd Gymraeg, Cymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol. Cyflwynir Saesneg wrth i ddisgyblion drosglwyddo i flwyddyn 3 fel bod disgyblion yn cael y cyfle i ddatblygu cymhwyster cyfartal yn y ddwy iaith. Yn ein dosbarthiadau Saesneg, defnyddir Cymraeg yn aml fel cyfrwng. Mae hyn yn datblygu'r sylfaen gadarn a osodwyd yn y blynyddoedd cynnar er mwyn sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer Saesneg a Chymraeg ym mywyd a gwaith yr ysgol. Nod yr ysgol yw datblygu cymhwyster ieithyddol yn y ddwy iaith erbyn iddynt gyrraedd 11 oed.

Rydym wrth gwrs yn sensitif ac yn ymwybodol y gall plentyn deimlo'n bryderus ynglŷn â dysgu iaith newydd sy'n anghyfarwydd. Sicrhawn na deimla'r plentyn yn anghyfforddus ar unrhyw adeg - y plentyn a'i les addysgol sydd bwysicaf. Mae cyflwyno ail iaith i blentyn yn cael ei wneud yn synhwyrol a hyblyg er mwyn sicrhau llwyddiant. Os bydd angen rhagor o eglurhad ar y pwynt hwn ceir arweiniad gan staff yr ysgol



# TREFNIADAU O RAN CWYNO AM Y CWRICWLWM

Os oes cwyn gan unrhyw riant ynglŷn â'r cwricwlwm neu unrhyw fater o fywyd ysgol, y man cyntaf i gysylltu ag ef yw'r ysgol. Mae'r ysgol yn gweithredu polisi drws agored, lle gall rhieni drafod unrhyw bryderon yn anffurfiol gydag aelod o staff neu'r Pennaeth. Rydym yn hyderus y gall y mwyafrif o broblemau gael eu datrys drwy siarad â'r athrawon dosbarth. Os na fydd y mater yn medru cael ei ddatrys fe fydd cymorth y Pennaeth ar gael. Os nad yw'n bosibl datrys y broblem o fewn yr ysgol yna bydd y Pennaeth yn dilyn y drefn a osodir yn y Polisi Cwynion.

Mae copi o'r Polisi ar gael yn y Swyddfa neu ar wefan yr ysgol.

# GOFAL BUGEILIOL

Y Pennaeth sy'n gyfrifol am drefniadaeth fugeiliol yr ysgol. Yr athrawon dosbarth sy'n gyfrifol am gynnydd addysgiadol a gofal bugeiliol y plant o fewn eu dosbarth ac yn ystod amser chwarae. Mae aelodau o staff yn gofalu amdanynt amser cinio.

Weithiau, bydd plant yn sâl yn yr ysgol neu efallai yn cael damwain. Bydd y staff yn delio â digwyddiadau bach ond cysylltir â'r rhieni os bydd unrhyw amheuaeth. Mewn amgylchiadau difrifol, ac os na ellir cysylltu â'r rhieni fe gymer y Pennaeth gyfrifoldeb am y weithred briodol i'w gwneud.

# DISGYBLAETH A RHEOLAU'R YSGOL

Disgwylir i bob plentyn ymddwyn yn dderbyniol ac fel aelod o gymdeithas o fewn yr ysgol. Fe'u hanogir i barchu hawliau ac eiddo pobl eraill. Credwn fod 'llais y dysgwr' yn bwysig.

# DIOGELU



| Mrs C Thomas | Mrs C Thomas | Mr A Davies | Mrs J Rowberry | Mrs L Williams |
|---|---|---|---|---|
| Is Swyddog Dynodedig | Is Swyddog Dynodedig | Uwch Swyddog Dynodedig | Llywodraethwr Dynodedig | Llywodraethwr Dynodedig |

Ceir copi o Bolisi Diogelu ar wefan yr ysgol ac yn Swyddfa'r Pennaeth.

# BWLIO

Mae gan yr ysgol bolisi penodol ar fwlian sy'n datgan bod gan bob plentyn yr hawl i dderbyn ei addysg mewn awyrgylch ddiogel a hynaws. Ein bwriad yn yr ysgol yw sicrhau na fydd bwlio'n cael ei ddioddef o gwbl. Gweithiwn tuag at ddileu pob ffurf ohono drwy ennyn cydweithrediad llwyr y disgyblion, y staff, y rhieni a'r llywodraethwyr.

Os ydych yn amau fod eich plentyn yn cael ei fwlian dylech gysylltu â'r ysgol yn syth – ni ddylech godi'r mater gyda disgyblion neu rieni unigol. Ceir copi o'r Polisi Bwlio yn Swyddfa'r Ysgol neu ar wefan yr ysgol.

# CINIO YSGOL

Caiff dysgwyr oed cynradd ginio ysgol am ddim. Os ydych yn credu eich bod yn gymwys i hawlio prydau ysgol am ddim (Ymgyrch Genedlaethol), gellid gwneud hynny ar wefan Cyngor Sir Gâr.

Anogir y plant i fwyta'u bwyd ac rydym yn disgwyl ymddygiad da wrth y bwrdd.

# PECYN BWYD

Â ninnau'n ysgol iach, mae'n ofynnol arnom i sicrhau bod pob plentyn yn derbyn bwydydd iach a chyfleoedd i ddatblygu'n gorfforol. Felly, er lles eich plant, a wnewch chi geisio rhoi amrywiaeth o fwydydd iach ym mhecynnau cinio'ch plant os gwelwch yn dda. Ni ddylai'r pecynnau gynnwys mwy nag un peth melys (Dim bariau siocled). Croesawn boteli dŵr a/neu ddŵr wedi ei flasu â ffrwythau ffres yn unig.



# GWISG YSGOL

Mae cadw at reolau'r wisg ysgol yn bwysig iawn. Yn ogystal â bod yn ymarferol, mae'n creu ymdeimlad o berthyn i'r ysgol ac mae pob plentyn yn edrych yr un fath/peth ac felly'n gyfartal.

**DYLID RHOI ENWAU'R PLANT YN AMLWG AR EU DILLAD**



**Bechgyn**

Trowsus llwyd
Crys 'polo' gwyn
Crys Chwys (Burgundy)

**Merched**

Sgert lwyd neu drowsus llwyd (Dim legins)
Crys 'polo' gwyn
Crys Chwys (Burgundy)
Ffrog gingham coch a gwyn

Nid yw HOODIES yn rhan o'n gwisg ysgol.

AR GYFER GWERSI YMARFER CORFF BYDD ANGEN I'CH PLENTYN / PLANT DDOD A DILLAD ADDAS AR Y DIWRNODAU HYNNY - crysau-t (lliw tim ysgol) a siorts neu legin s / trowsus chwaraeon.

**NI CHANIATER CIT PEL DROED / RYGBI**

# Polisi Tlysau

TLYSAU
Ni chaniateir tlysau megis modrwyon, breichledau, cadwyni braich, tsaen. Awgymir yn gryf nad yw ein disgyblion yn gwiso clustdlysau i'r ysgol ond lle nad yw hyn yn bosib caniateir un clustdlws styd bach aur/arian ym mhob clust. Awgrymwn y dylid tyllu clustiau ar ddechrau gwyliau'r haf yn unig. Rhaid tynnu'r clustdlysau ar gyfer gwersi chwaraeon ac ymarfer corff - anodd gwneud hyn os yw'r clustiau newydd eu tyllu. Rhaid i riant arwyddo ymwadiad pan nad yw'n bosib i blentyn ddiosg eu clustlysau i'r ysgol. Nid oes hawl gan ddisgybl wisgo stydiau mewn unrhyw dylliadau (piercings) eraill. Mae gan aelodau staff yr hawl i ofyn i ddisgybl gael gwared ar y rhain os bydd yn torri'r rheol.

# GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL

Eleni rydym am gynnig y glybiau  isod:

| Côr | Clwb Blwyddyn 1 | Dreigiau Digidol | Cyngor Ysgol | Clwb Chwaraeon | Clwb Clocsio |
|---|---|---|---|---|---|
| Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Bob yn ail Dydd Mercher | Bob yn ail Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener |
| Bl 3 I 6 | Bl 1 a 2 | Bl 3 i 6 | Bl 3 i 6 | Bl 3 i 6 | Bl 1 i 3 |
| 3.15 - 4.00 | 3.05—4.00 | 3.15—4.00 | 3.05—4.00 | 3.15—4.15 | 3.05—4.00 |

### PROFIADAU CHWARAEON

Nod y sesiwn yw cynnig  amrywiaeth o brofiadau i'r plant megis hoci, pêl-rwyd, criced, pêl-droed, rygbi, aml-sgiliau er mwyn datblygu eu sgiliau chwaraeon.

### PROFIADAU CELF

Byddwn yn cynnig cyfle i'r plant fwynhau profiadau celfyddydol trwy eu hannog i ddatblygu eu creadigrwydd a'u dawn.

### PROFIADAU COGINIO

Byddwn yn cynnig cyfle i blant i ddatblygu sgiliau sylfaenol ar baratoi a choginio bwyd.

### PROFIADAU DIGIDOL

Nod y clwb yw rhoi cyfle i blant ddefnyddio ac archwilio ystod o sgiliau TGCh mewn ffordd hwylus ac addysgiadol.



# CLWB BRECWAST

Cynigir brecwast am ddim i ddisgyblion yr ysgol rhwng 8.00yb ac 8.50yb (mynediad olaf am 8.30yb) yn neuadd ginio'r ysgol.

# IECHYD A DIOGELWCH

Yn Llangynnwr, diogelwch y plant sy'n dod gyntaf.

Mae larymau diogelwch wedi eu gosod drwy'r ysgol. Caiff dril tân ei ymarfer bob tymor a disgwylir i'r plant adnabod ac adweithio i alwad y larwm dân.

Ceir copi o'r Polisi Iechyd a Diogelwch a chopi o Asesiad Risg  yn swyddfa'r Pennaeth.

# POLISI CODI TÂL

Ni chodir tâl am weithgareddau ysgol heblaw am yr isod:

- Teithiau addysgol, lle gofynnir am gyfraniadau gan rieni.
- Gweithgareddau allgyrsiol a drefnir gan fudiadau allanol.
- Cyfraniad tuag at wersi Offerynnol

# LLWYDDIANNAU'R YSGOL

## ECO-SGOLION

Mae Llangynnwr wedi derbyn Gwobr Eco-Sgolion Cenedlaethol, Platinwm wyth gwaith am waith ac ymrwymiad i brosiectau amgylcheddol ac eco. Mae gan yr ysgol Gyngor Eco sy'n cwmpasu gwaith Eco-Sgolion, Hybu Iechyd a gwaith ar ddinasyddiaeth fyd-eang. Braf yw gweld eu holl waith caled yn cael ei gydnabod.

## YSGOLION IACH

Mae Ysgol Llangynnwr yn falch iawn o fod yn rhan o gynllun Ysgolion Iach Sir Gaerfyrddin. Mae'r statws hwn yn bwysig iawn i ni yn yr ysgol, gan ein bod yn ymfalchïo yn y pwysigrwydd o gael ysgol iach, ac yn 2022 cyrhaeddom gam 5. Rydym bellach wedi cael llwyddiant ym mhob cam o'r fenter.
Gyda chefnogaeth gyson y plant, y staff a'r rhieni, gallwn sicrhau bod y plant yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at fywyd iach. Gyda'n gilydd, gallwn fagu plant iach, heini a hapus ar gyfer y dyfodol.

(Y ffocws nawr yw'r Ymagwedd Ysgol Gyfan at Iechyd a Lles Emosiynol a Meddyliol felly gallwn gynnwys y ddau i ddangos beth mae'r ysgol wedi cyflawni a beth yw'r targed newydd)

## YR URDD

Anogwn y plant i gynrychioli'r ysgol mewn ystod eang o weithgareddau i'w haelodau -pêl rwyd, nofio, pêl droed, rygbi, cogurdd, yr eisteddfod, canu, llefaru, partïon unsain, y gân actol, côr, dawnsio, gymnasteg, celf a chrefft ac ymweliadau preswyl e.e. Llangrannog a Glanllyn. Ymfalchïwn fod y plant yn medru derbyn y cyfle i fod yn rhan o'r sefydliad hwn. Codir tâl aelodaeth yn uniongyrchol i'r Urdd, yn flynyddol.

## MASNACH DEG

Ymfalchïa'r ysgol yn ei statws Masnach Deg, cynhelir llu o weithgareddau er mwyn hybu ymwybyddiaeth yr ysgol a'r gymdeithas gyfagos o gynnyrch masnach deg.

## SIARTER IAITH

Nôd y siarter iaith yw ysbrydoli plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau ac nid yn unig ar lawr y dosbarth.

Anogwn y dysgwyr i fagu balchder yn eu mamiaith. Mae'r ysgol wedi cipio y wobr Arian Siarter Iaith ac yn gweithio tuag at y wobr Aur.



# CLWB GOFAL

**CLWB CYNNWR ( Wedi ei gofrestru gan y CIW)**

Nod y clwb yw sicrhau gwasanaeth diogel a difyr sy'n galluogi rhieni i fod yn gwbl hyderus ynglŷn â diogelwch eu plant ar ôl oriau ysgol. Sicrheir bod y plant yng ngofal staff profiadol ar bob achlysur. Rhoddir byrbryd iddynt a chyfle iddynt ymgymryd â nifer o weithgareddau megis chwaraeon, gemau, crefftau a choginio.

Oriau'r clwb - Dydd Llun i Ddydd Iau, 15.00- 17.30 yn ystod tymor ysgol yn unig.

Dylid cadw lle wythnos ymlaen llaw trwy neges destun

**RHIF FFON ARCHEBU LLE: 07931582527**

# CLWB GWYLIAU

Mae Clwb Gwyliau Hapus wedi ei gofrestru gydag y 'CIW'. Sefydlwyd ac agorwyd y clwb yn swyddogol ar Ddydd Llun 20fed o Orffennaf 2015. Mae'r Clwb yn eiddo i Mrs Sandra Rowlands sy'n Gynorthwyydd Dysgu yn yr ysgol.

Rhaid i bob plentyn fod llenwi ffurflen gofrestru cyn mynychu'r clwb a rhaid i rieni arwyddo cytundeb ar ddiwrnod cyntaf y plentyn.

I gadw lle i'ch plentyn/plant, gallwch gysylltu â'r clwb drwy neges destun ar 07365369477. Bydd ffurflenni cofrestru ar gael o wefan a derbynfa'r ysgol. A all rhieni archebu lle eu plentyn/plant cyn gynted â phosibl er mwyn trefnu staffio.

Bydd angen byrbryd bore a phecyn bwyd a diod ar eich plentyn. Rhaid talu pob taliad cyn i'ch plentyn fynychu'r clwb.

£25 Diwrnod llawn 8am-5.30pm

£20 Ail, trydydd plentyn ac ati

£15 Sesiwn bore 8am-12.45pm

£15 Sesiwn prynhawn 12.45pm-5.30pm

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y clwb gwyliau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

